Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

www.npt.gov.uk

Cynnwys

Cyflwyniad 2
Pwy ydym ni 4
  Strwythur y Cyngor 5
Y Cyd-destun Deddfwriaethol a Strategol 7
Asesu a hyfforddi 11
  Asesiad Effaith Integredig 11
  Hyfforddiant 12
Ein Hamcanion Cydraddoldeb 13
  Datblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb 14
  Tystiolaeth a data 16
Monitro ac adolygu 22

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn print bras neu mewn fformat arall, ffoniwch y Tîm Strategaethau Corfforaethol ar 01639 763010 or email: policy@npt.gov.uk

Cyflwyniad

Y bwriad oedd cyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gan gynnwys yr amcanion cydraddoldeb a'r camau gweithredu cysylltiedig, i'r Cabinet ym mis Ebrill 2020.

Fodd bynnag, o ganlyniad i gychwyniad COVID-19, nid oedd hyn yn bosib oherwydd amharwyd ar drefniadau adrodd gweithredol ac adleoliwyd llawer o'n gweithlu i feysydd gwasanaeth eraill i gefnogi ymateb y cyngor.

Hefyd, ar ddiwedd mis Mawrth 2020, gohiriodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol derfynau amser statudol ar gyfer cyhoeddi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ac amcanion cydraddoldeb tan fis Hydref 2020.

Roedd ymateb gweithwyr allweddol ym mhob gwasanaeth ar draws y sector cyhoeddus i'r feirws yn arbennig, ac mae'n parhau i fod. Fodd bynnag, daeth yn fwyfwy amlwg wrth i wythnosau fynd yn eu blaen, er yr effeithiwyd ar bob cymuned, fod cymunedau Du, Asiaidd a'r cymunedau lleiafrifol yn cael eu heffeithio'n anghymesur; o ran materion iechyd, fel gweithwyr allweddol, gydag effeithiau difrifol ar gyflogaeth yn ogystal ag addysg hygyrch i blant a phobl ifanc.

Mae'r adroddiadau a chyfarfodydd amrywiol dros y misoedd diwethaf wedi cefnogi'r farn wreiddiol ac wedi archwilio'n fanwl yr effaith ddinistriol y mae'r pandemig wedi'i chael ar ein cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Ar ddechrau'r pandemig, roeddem yn cydnabod y byddai angen adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb er mwyn mynd i'r afael â'r effaith yr oedd y pandemig yn ei chael ar ein cymunedau lleol.

Roedd llofruddiaeth greulon George Floyd ar 25 Mai 2020, ac yna'r protestiadau a chondemniad rhyngwladol dealladwy, digwyddiadau eraill yn ein hanes diweddar yn ogystal â'r effaith anghymesur a brofwyd gan aelodau'r cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi dod ag agweddau ac ymddygiadau hirsefydlog i'r amlwg sy'n parhau i fod tuag at bobl o'r cymunedau hyn.

Yn ei anerchiad i'r cyngor ym mis Gorffennaf 2020, ymrwymodd yr Arweinydd i ailfeddwl sut rydym yn gweithio gyda'n cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghastell-nedd Port Talbot i sicrhau cydraddoldeb, tegwch a chydlyniant cymdeithasol a sicrhau newid cymdeithasol i ddangos bod Bywydau Du o Bwys.

Roedd hyn yn pwysleisio'r angen i adolygu'r amcanion cydraddoldeb ymhellach, a'r camau gweithredu. Ar ôl ystyried y papurau a'r ymchwil perthnasol diweddaraf a oedd ar gael, ystyriwyd, er bod yr amcanion cydraddoldeb yn berthnasol o hyd, fod angen rhoi ystyriaeth bellach i gamau gweithredu mwy perthnasol.

Oherwydd hyn, mae rhaglen gynnwys yn cael ei datblygu i sicrhau bod profiadau a phryderon aelodau o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cael eu hystyried yn llawn wrth adolygu camau gweithredu i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb.

Pwy ydym ni

Lleolir Castell-nedd Port Talbot ar yr arfordir rhwng Abertawe i'r gorllewin a Phen-y-bont ar Ogwr i'r dwyrain. Mae Castell-nedd Port Talbot hefyd yn rhannu ffiniau â Sir Gâr, Powys, Rhondda Cynon Taf a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Gan gwmpasu arwynebedd o dros 44,217 hectar, rhennir nodweddion ffisegol y Fwrdeistref Sirol yn fras rhwng y coridor arfordirol a'r cymoedd.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae gan Gastell-nedd Port Talbot boblogaeth breswyl o 139,800 ac mae ganddi'r 11eg dwysedd poblogaeth uchaf o'r 22 awdurdod lleol ledled Cymru. Mae'r twf disgwyliedig yn y boblogaeth, sef cynnydd o tua 5% (7,000) erbyn 2021, wedi'i adlewyrchu yn amcangyfrifiad canol blwyddyn 2018 o 142,906 o bobl yn byw yn y fwrdeistref sirol. Mae'r amcangyfrifiad hwn yn cynnwys bron 31,500 o bobl dros 65 oed.

Nododd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019 fod 15.4% o ardaloedd cynnyrch ehangach lleol (ardaloedd â phoblogaeth o 1000) yng Nghastell-nedd Port Talbot yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Nid yw MALlC wedi'i lunio i nodi'r ardaloedd bach hynny lle ceir y crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd

Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 2.1% o'r boblogaeth yn grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig, o'i gymharu â 4% yng Nghymru.

Mae data gan ysgolion yn nodi bod cyfran y disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (Prydeinig, heb fod yn wyn) yn 6.16% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 11.41%.

Yng Nghyfrifiad 2011, o'r bobl hynny a nododd grefydd, ffydd neu gred, roedd 57.7% ohonynt yn disgrifio'u hunain yn Gristnogion, 33.8% yn nodi nad oedd ganddynt grefydd, 7.3% heb ateb y cwestiwn a'r gweddill yn Fwdaidd (0.2%), Hindŵaidd (0.1%), Iddewig (0%), Moslemaidd (0.4%), Sicaidd (0.1%), arall (0.4%).

Castell-nedd Port Talbot sydd â'r drydedd Gymuned Sipsiwn a Theithwyr fwyaf yng Nghymru. Mae dau safle carafannau sipsiwn a theithwyr a awdurdodwyd yn y fwrdeistref sirol gyda phoblogaeth amcangyfrifedig o 236.

Ar adeg y Cyfrifiad yn 2011, roedd dros dri chwarter (77.7%) o oedolion a oedd yn byw yng Nghastell-nedd Port Talbot yn teimlo bod eu hiechyd naill ai'n dda neu'n dda iawn, sy'n debyg iawn i'r cyfartaledd ar draws Cymru. Roedd 10.5% o'r oedolion a gwblhaodd yr arolwg yn teimlo bod eu hiechyd yn wael neu'n wael iawn, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar draws Cymru (7.6%).

Mae lefelau uchel o gyflyrau iechyd cronig megis clefyd y galon, diabetes ac anhwylderau resbiradol yn y fwrdeistref sirol gyda 28% o'r boblogaeth â salwch hirdymor cyfyngol o'i gymharu â 22.7% ledled Cymru (Cyfrifiad 2011).

14.6% yw'r ddarpariaeth gofal di-dâl yng Nghastell-nedd Port Talbot (Cyfrifiad 2011), y ganran fwyaf yng Nghymru.

Strwythur y Cyngor

Yng Nghastell-nedd Port Talbot ceir 42 o adrannau etholiadol gyda 64 o aelodau etholedig ac rydym yn gweithredu model cabinet o lywodraeth leol gydag Arweinydd a gefnogir gan 9 aelod cabinet (y Weithrediaeth). Trefnir penderfyniadau ymhlith y Cabinet a phedwar Bwrdd y Cabinet. Mae'r Pwyllgorau Craffu'n monitro perfformiad a phenderfyniadau'r Weithrediaeth. Maent hefyd yn llunio adroddiadau ac argymhellion sy'n cynghori'r Weithrediaeth a'r cyngor cyfan am ei bolisïau, ei gyllideb a'r modd y mae'n cyflwyno gwasanaethau.

Mae pob un o'n wyth Aelod Cabinet yn gyfrifol am ystod eang o faterion. Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chydraddoldeb yw ein Hyrwyddwr Cydraddoldeb dynodedig ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac Iechyd yw ein Hyrwyddwr Pobl Hŷn dynodedig. Mae gan aelodau'r

Cabinet bortffolios sy'n gysylltiedig â'r agenda cydraddoldeb, er enghraifft, plant, addysg a diogelwch cymunedol.

Atgyfnerthir pwysigrwydd cydraddoldeb gan y ffaith bod polisïau a chynlluniau sy'n ymwneud â chydraddoldeb a'r iaith Gymraeg ymhlith y nifer cyfyngedig y mae angen i'r cyngor llawn eu cymeradwyo.

Mae grŵp o uwch-reolwyr sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Dirprwy Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Corfforaethol yn goruchwylio rheolaeth strategol busnes y cyngor. Mae gan Benaethiaid Gwasanaeth gyfrifoldeb gweithredol unigol am wasanaethau yn ogystal â darparu cefnogaeth strategol i uwch-reolwyr.

Nod ein Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol corfforaethol, gydag aelodaeth sy'n cynnwys uwch swyddogion y cyngor, yr heddlu a chynrychiolwyr o grwpiau, sefydliadau a chymunedau cydraddoldeb lleol, yw:

- mynd i'r afael â materion a phryderon a nodir gan y gwahanol gymunedau
- hyrwyddo cydlyniant a chefnogi cymunedau ar y cyd yng Nghastell-nedd Port Talbot
- parhau i adolygu datblygiadau allanol allweddol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, megis safonau cydraddoldeb, codau ymarfer a deddfwriaeth
- sicrhau bod polisïau'r cyngor yn cael eu defnyddio gan bawb
- codi proffil cydraddoldebau ledled Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- argymell dogfennau cydraddoldeb corfforaethol i'w cymeradwyo
- monitro cynnydd o ran gweithredu polisïau cydraddoldeb corfforaethol a chynlluniau gweithredu o fewn cyfarwyddiaethau
- rhannu arbenigedd a phrofiad, er mwyn cefnogi aelodau grŵp eraill yn y dasg o arwain o ran cydraddoldeb

Mae'r grŵp hwn wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu ein hamcanion cydraddoldeb.

Y Cyd-destun Deddfwriaethol a Strategol

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010, drwy gyfuno a disodli'r ddeddfwriaeth flaenorol ar wrth-wahaniaethu, wedi symleiddio a chryfhau'r gyfraith, gan gael gwared ar anghysondebau a'i gwneud yn haws i bawb ei deall. Drwy roi'r Ddeddf ar waith, byddwn yn gweithio i greu cymdeithas decach, gwella gwasanaethau cyhoeddus, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hirsefydlog ac, yn y pen draw, wella bywydau pobl.

O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r cyngor, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill, roi ystyriaeth briodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a fictimeiddio, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ymhlith a rhwng pobl sy'n perthyn i wahanol grwpiau gwarchodedig (adnabyddir hyn fel Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus)**.**

Dyma'r grwpiau neu'r nodweddion gwarchodedig:

- oedran
- ailbennu rhywedd
- rhyw
- hil
- anabledd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- tueddfryd rhywiol
- crefydd a chred
- priodas a phartneriaeth sifil (o ran yr angen i ddileu gwahaniaethu'n unig)

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Yng Nghymru, mae dyletswyddau penodol wedi cael eu cyflwyno i'n helpu i gyflawni dyletswydd y sector cyhoeddus ac mae'r rhain yn cynnwys llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) a datblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb.

Deddf Iaith 2011

Rhoddodd y Mesur statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, sefydlodd rôl Comisiynydd y Gymraeg, creodd weithdrefn er mwyn cyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith a darparodd ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymysg darpariaethau eraill. Rôl Comisiynydd y Gymraeg yw hyrwyddo'r Gymraeg, a gwella'r cyfleoedd sydd gan bobl i'w defnyddio, drwy pwysleisio statws swyddogol yr iaith yng Nghymru, a gosod safonau ar sefydliadau.

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

Mae'r rheoliadau hyn, a osodwyd ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru, yn cynnwys amrywiaeth o safonau ymddygiad ynghylch y Gymraeg. Cafodd y safonau eu grwpio fel a ganlyn:

- cyflwyno gwasanaethau
- llunio polisïau
- gweithredol
- hyrwyddo
- cadw cofnodion

Lluniwyd Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2019-2020 , yn unol â'r rheoliadau hyn, sy'n nodi sut yr ydym wedi cydymffurfio â'r safonau yn ystod y flwyddyn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gosod dyletswyddau ar y cyngor i bennu amcanion lles a gweithio mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau Cymru decach a mwy cyfartal. Mae'r cyngor wedi diwygio ei offeryn asesu effaith integredig yn ddiweddar i helpu swyddogion i ddiddyfnu'r holl ddyletswyddau sy'n codi mewn perthynas â chydraddoldeb.

Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Bydd cyflwyniad arfaethedig Llywodraeth Cymru o'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i ni, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill, wneud mwy yn ffurfiol. Rydym eisoes yn ystyried effaith penderfyniadau polisi ar sail economaidd-gymdeithasol i raddau drwy ein dull Asesu Effaith Integredig presennol. Nid oes amheuaeth bod anghydraddoldebau'n ehangu felly byddai'n gwneud synnwyr yn y cyd-destun hwnnw i ni fod yn glir iawn ynghylch ble mae prif effeithiau penderfyniadau a wnawn yn methu. Mae nifer o newidiadau'n effeithio'n anghymesur ar y rhai tlotaf ac rydym yn gweithio gyda Sefydliad Bevan a phartneriaid lleol i dynnu ar hyn cyn gwneud penderfyniadau. Daw'r Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021.

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yw amlinellu cynlluniau'r cyngor ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref sirol, gan symud ysgolion cynradd ac uwchradd ar hyd y continwwm ieithyddol i ddarparu cynnydd mesuredig a sylweddol yn lefel addysg cyfrwng Cymraeg.

Cyfamod Lluoedd Arfog Castell-nedd Port Talbot

Rydym yn ymwybodol iawn y gall cyn-filwyr y lluoedd arfog brofi iechyd meddwl gwael a/neu anableddau corfforol, oherwydd natur eu hymwneud â'r gwasanaeth.Mae eu profiadau'n effeithio ar yr unigolyn ac ar deulu a ffrindiau, gan achosi straen ar berthnasoedd, gofid ac weithiau’n arwain at sefyllfaoedd mwy argyfyngus fyth i

bawb sy'n gysylltiedig. Nid yw'r straen ar fywyd teuluol wedi'i gyfyngu i deuluoedd cyn-filwyr, gall teuluoedd y rheini sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog ar hyn o bryd brofi'r straen ar fywyd teuluol hefyd.

Fel rhan o'n hymrwymiad i'r gwaith hwn rydym wedi llofnodi Cyfamod Lluoedd Arfog Llywodraeth y DU ac yn annog ein partneriaid strategol i wneud hynny hefyd. Yn lleol, rydym wedi llofnodi Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog gyda chymuned y lluoedd arfog yn y fwrdeistref sirol a'n partneriaid strategol lleol. Mae llofnodwyr y Cyfamod yn cytuno i helpu i gefnogi cymuned leol y lluoedd arfog a'i gwneud yn haws i bersonél y lluoedd arfog, teuluoedd a chyn-filwyr gael gafael ar y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael. Yn ogystal, anogir cymuned y lluoedd arfog i wneud cymaint ag sy'n bosib i gefnogi ei chymuned a hyrwyddo gweithgarwch sy'n integreiddio'r gymuned wasanaeth i fywyd sifil.

Cynhwysiad Digidol

Er bod Strategaeth Digidol Clyfar a Chysylltiedig y cyngor yn anelu at fanteisio ar botensial technolegau digidol i bobl leol a'n heconomi, mae'r strategaeth yn cydnabod yn glir bod nifer sylweddol o bobl nad ydynt ar-lein. Yn 2020, cydnabu'r cyngor gan Cymunedau Digidol Cymru am y gwaith y mae'n ei wneud fel asiantaeth ac mewn partneriaeth i fynd i'r afael ag eithrio digidol. Mae llawer o'r rheini sydd wedi'u heithrio'n ddigidol yn rhannu nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, mae'r rhai sy'n oedrannus, mewn iechyd gwael, yn anabl neu ar incwm isel yn fwy tebygol o gael eu heithrio'n ddigidol nag eraill yn y boblogaeth gyffredinol. Rhaid i ni sicrhau, wrth i ni arloesi a defnyddio technolegau digidol a gwyddorau data i wella effeithiolrwydd ein sefydliad, nad ydym yn gadael pobl ar ôl. Mae ein cynllun gweithredu a ddatblygwyd i gefnogi ymrwymiadau'r Siarter Cynhwysiad Digidol yn nodi sut y byddwn yn gwneud hyn.

Asesu a hyfforddi

Asesiad Effaith Integredig

Rydym wedi adolygu a diwygio ein proses asesu effaith cydraddoldeb i gynnwys ein dyletswyddau cyfreithiol newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ogystal â chynnal y ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg. Ein nod oedd datblygu ymagwedd fwy integredig wrth asesu effaith ein polisïau a'n gwasanaethau ar bobl â nodweddion gwarchodedig yn ogystal â'r gymuned ehangach, nawr ac yn y dyfodol.

Wrth gyflwyno'r broses Asesu Effaith Integredig newydd, datblygwyd rhaglen hyfforddi gennym i sicrhau bod ein staff yn deall yn llawn pam, yn ogystal â sut, i gynnal asesiadau, pwysigrwydd ymgynghori a chynnwys yn ogystal â chydnabod yr egwyddor datblygu cynaliadwy ehangach.

Diweddarwyd Canllawiau Adroddiad Gweithredol ac Anweithredol/Rheoleiddiol y cyngor hefyd i atgyfnerthu gofynion deddfwriaethol cyfredol ac adlewyrchu gofynion deddfwriaethol newydd. Roedd y diweddariad hwn o ganllawiau'r adroddiad hefyd yn gyfle i atgyfnerthu'r ffordd y caiff asesiadau effaith eu hadrodd i'r aelodau.

Roedd adolygiad o'r broses asesu effaith a llwyddiant ei weithredu'n fod i gael ei gynnal ym mis Mai 2020 ond mae hyn wedi'i ohirio oherwydd y pandemig. Caiff yr adolygiad ei aildrefnu cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Mae asesiadau effaith integredig wedi'u cwblhau'n rhan o adroddiadau penderfyniadau ac felly fe'u cyhoeddir ar ein gwefan fel rhan o'r pecyn adroddiadau ar gyfer y Cabinet neu fwrdd perthnasol y Cabinet. Bwriad yr asesiad Effaith Integredig yw bod gan aelodau ddealltwriaeth dda o sut y mae penderfyniadau y bwriedir eu cymryd yn effeithio ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig neu ffactorau eraill.

Hyfforddiant

Mae hyfforddiant yn elfen bwysig o'n gwaith, nid yn unig er mwyn ein helpu i fodloni'n hamcanion cydraddoldeb ond hefyd fel nodwedd allweddol yn natblygiad personol gweithwyr ac aelodau etholedig. O ganlyniad, mae'n rhaglen hyfforddiant wedi canolbwyntio ar feysydd sy'n newydd a'r rhai sy'n dal i fod yn heriol i'r cyngor cyfan.

Rydym yn parhau i weithio i sicrhau bod yr holl staff a'r aelodau etholedig yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cael hyfforddiant priodol ar gynllunio a chyflwyno gwasanaethau. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld newidiadau mawr i gymunedau'n gweithlu o ganlyniad i fesur caledi, e.e. colli nifer sylweddol o staff profiadol a gohirio recriwtio. Gyda hyn a'r ddynameg sy'n newid yn barhaus yn ein cymunedau o ganlyniad i fewnfudo a grymoedd allanol, e.e. Brexit, rydym yn ymwybodol bod bylchau'n parhau yn ein dealltwriaeth a'n gwybodaeth ac felly rydym yn parhau i chwilio am hyfforddiant priodol i fynd i'r afael â hyn.

Mae amrywiaeth o hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb wedi'i ddarparu i'n staff a'n staff o sefydliadau partner. Mae'r sesiynau hyn wedi cynnwys hyfforddiant gorfodol yn fwyaf diweddar ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ymwybyddiaeth o ddyslecsia, cydraddoldeb yn y gweithle, anableddau cudd a gwneud addasiadau rhesymol, rhagfarn ddiarwybod, troseddau casineb, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl, cyflogaeth foesegol a'r iaith Gymraeg ymhlith eraill. Rydym hefyd wedi cynnal hyfforddiant i staff sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau effaith integredig.

Mae materion cydraddoldeb hefyd wedi'u cynnwys mewn meysydd eraill nad ydynt yn gysylltiedig megis gyda swyddog cwynion a rheoli perfformiad ac arfarnu perfformiad ar gyfer hyfforddi rheolwyr ymysg eraill.

Ein Hamcanion Cydraddoldeb

Addysg	–	sicrhau y gall plant a phobl ifanc fod y gorau y gallant fod
Iechyd a Lles	–	hybu lles ac iechyd meddwl da a mynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu o ran iechyd meddwl
Diogelwch Personol	–	sicrhau bod pobl a chymunedau'n ddiogel, yn cael eu parchu ac yn rhydd rhag trais a cham-drin
Cyflogaeth	–	sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu ein cymuned yn fwy, bod ein polisïau'n deg ac yn gyfiawn a bod bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu lleihau
Cyfranogiad	–	sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb a bod pobl a chymunedau'n gallu dylanwadu'n well ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt
Safonau byw	–	gweithio i leihau tlodi a chefnogi byw'n annibynnol

Datblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb

Gyda chyni parhaus, pryder cynyddol o ganlyniad i'r hinsawdd wleidyddol ac economaidd genedlaethol, effaith gwahanol bolisïau cenedlaethol ynghyd â lefelau cynyddol o dlodi, digwyddiadau casineb a'r ymwybyddiaeth gynyddol o faterion iechyd meddwl, rydym wedi bod yn ymwybodol iawn o effaith y rhain ar ein cymunedau.

Fodd bynnag, hyd yn oed yn erbyn y cefndir hwn rydym wedi gwneud llawer o gynnydd o ran datblygu ein dealltwriaeth o'r materion ac mae rhai darnau da o waith yn cael eu cyflawni sy'n cael effaith gadarnhaol ar bobl yn ein cymunedau:

- Dechreuom weithio ar ddeall pa faterion tlodi sy'n cael yr effaith fwyaf sylweddol ar bobl leol a chynhaliom ein digwyddiad 'Symposiwm Tlodi' cyntaf ym mis Medi 2019. Helpodd y digwyddiad i nodi cyfleoedd i wella'r ffordd y mae gwasanaethau a chymorth yn cael eu darparu i bobl ar incwm isel ledled Castell-nedd Port Talbot.
- Credyd Cynhwysol - mae ei gyflwyno'n cael effaith sylweddol ar ein preswylwyr a allai fod eisoes yn delio â phroblemau iechyd hirdymor, anabledd neu ddiweithdra, ac rydym wedi bod yn gweithio gyda'n partneriaid i roi cymorth a chyngor i'r rhai yr effeithir arnynt yn andwyol.
- Rydym wedi comisiynu 'Policy in Practice', sy'n defnyddio data ar lefel aelwydydd i ddeall ac olrhain effaith y diwygiadau lles ar breswylwyr, i'n helpu i benderfynu pwy fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan yr effaith gronnol. Ffocws ein gwaith ar gyfer 2020-2021 yw defnyddio'r wybodaeth i dargedu'r broses o gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant a chyfarwyddo rhai o'n hymdrechion cyflogadwyedd tuag at grwpiau penodol o bobl.
- Siarter Cyfranogiad Cenedlaethol - ein Gwasanaeth Ieuenctid a'r Bartneriaeth Teulu'n Flaenaf oedd y cyntaf yng Nghymru i ymuno â'r Siarter Cyfranogiad Genedlaethol ac maent wedi derbyn y Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol nodedig am y ffordd y maent yn annog plant a phobl ifanc i ddweud eu dweud wrth ddylunio a chynllunio'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

- Maer Ieuenctid – etholodd pobl ifanc Castell-nedd Port Talbot eu Maer Ieuenctid a Dirprwy Faer Ieuenctid cyntaf erioed, a fydd yn llais i bob plentyn a pherson ifanc ar draws y fwrdeistref sirol a bydd hefyd yn cysgodi Maer Castell-nedd Port Talbot mewn nifer o ddyletswyddau dinesig a bennwyd ymlaen llaw.
- Polisi Absenoldeb Diogel - wrth barhau i weithredu ein 'Strategaeth Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach', ni oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i weithredu polisi 'Absenoldeb Diogel' ar gyfer staff y mae unrhyw fath o gam-drin domestig yn effeithio arnynt, gan roi cyfle iddynt gael gafael ar wasanaethau cymorth, cyngor cyfreithiol, tai amgen neu gymorth meddygol mewn ffordd ddiogel, wedi'i chynllunio.

Yn ogystal, mae ein hamcanion lles a'n blaenoriaethau gwella yn y Cynllun Corfforaethol yn adlewyrchu ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r materion a wynebwn yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae ein gweledigaeth a'n gwerthoedd yn gosod y safon ar gyfer ein gwaith:

- Rydym am i'n bwrdeistref sirol fod yn lle y gall pawb gael cyfle cyfartal i ddatblygu mewn bywyd - lle mae pobl am fyw, dysgu, gweithio a magu teulu
- Byddwn yn dathlu amrywiaeth o bob math ac yn gweithio'n ddiflino ar gyfer mwy o gydraddoldeb yn ein holl gymunedau.

Mynegir hyn ymhellach gan ein hymrwymiad yn y fersiwn hon o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol:

'Lleihau anghydraddoldeb a mynd i'r afael ag achosion anghydraddoldeb'

Mae'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol, sy'n cynnwys uwch swyddogion y cyngor, yr heddlu a chynrychiolwyr grwpiau cydraddoldeb lleol, sefydliadau a chymunedau wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu'r amcanion cydraddoldeb drafft a'r camau gweithredu arfaethedig.

Wrth ddatblygu'r amcanion cydraddoldeb, ystyriwyd amryw o ganfyddiadau ymchwil cenedlaethol a lleol; y data diweddaraf sydd ar gael i'r cyngor a materion a godwyd gan grwpiau cydraddoldeb lleol yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol.

Cynhaliwyd ymchwil leol gydag aelodau o'r gymuned lleiafrifoedd ethnig a du (BME), pobl â phrofiadau o incwm isel, pobl anabl, aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr a chymunedau yn gyffredinol. Nodwyd nifer o bethau cyffredin drwy gydol y broses, gan gynnwys troseddau/digwyddiadau casineb, tlodi a rhwystrau wrth gael mynediad at wasanaethau, sydd wedi'u hymgorffori yn yr amcanion cydraddoldeb.

Tystiolaeth a data

Dyma rai o'r dogfennau allweddol y cyfeirir atynt wrth ddatblygu'r amcanion cydraddoldeb:

A yw Cymru'n Decach? - Mae adroddiad 'A yw Cymru'n decach?' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi bod yn ffynhonnell ddata allweddol i lywio'r gwaith o ddatblygu'r amcanion cydraddoldeb drafft. Dyma'r adolygiad mwyaf cynhwysfawr o sut mae Cymru'n perfformio o ran cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar chwe thema: Addysg, Iechyd, Diogelwch Personol, Safonau Byw, Cyflogaeth a Chyfranogiad ac ymddengys fod y rhain yn adlewyrchu'r meysydd hynny y tynnwyd sylw atynt yn lleol. O ganlyniad, rydym wedi mabwysiadu'r themâu hyn ar gyfer ein hamcanion cydraddoldeb drafft.

Strategaeth Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach - Mae'r strategaeth Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach ddiwygiedig yn amlinellu'r meysydd blaenoriaeth a'r cyfeiriad strategol ynghylch perthnasoedd iach a gweithredu Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yng Nghastell-nedd Port Talbot. Wedi'i datblygu gydag ystod eang o bartneriaid a goroeswyr gyda'r nod o

fynd i'r afael â phob math o drais mewn perthynas, bydd y camau cyraeddadwy'n ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth hirdymor:
"Atal a chael gwared ar drais sy'n seiliedig ar rywedd drwy hyrwyddo: cydraddoldeb; diogelwch; parch; ac annibyniaeth i alluogi pawb i fyw heb gael ei gam-drin na dioddef yr agweddau sy'n cynnal y cam-drin hwnnw."

Cynllun Cyflogwyr Chwarae Teg - Rydym yn gweithio gyda Chwarae Teg fel rhan o'r Cynllun Cyflogwyr Chwarae Teg. Mae'r cynllun yn cefnogi sefydliadau i ddatblygu cynlluniau gweithredu cydraddoldeb rhyw, gan ddefnyddio dadansoddiad o'r data gweithlu sydd ar gael, ystyried arferion cyflogwyr, wedi'u cydweddu ag argymhellion arfer gorau, gan gynnwys camau i leihau bylchau cyflog rhwng y rhywiau. Mae Chwarae Teg wedi asesu ein polisïau a'n harferion cydraddoldeb rhyw, gan gynnwys arolwg o staff ac wedi dyfarnu'r Wobr Arian i ni am Amrywiaeth Rhywedd. Mae'r wobr hon yn cydnabod bod gan y cyngor ymrwymiad clir i wneud gwahaniaeth i recriwtio, cadw a datblygu menywod yn y gweithle.

Symposiwm Tlodi Castell-nedd Port Talbot - Cynhaliwyd Symposiwm Tlodi amlasiantaethol ym mis Medi 2019 a daeth ag ymarferwyr o amrywiaeth o sefydliadau at ei gilydd, i nodi cyfleoedd i wella'r ffordd y mae gwasanaethau a chymorth yn cael eu darparu i bobl ar incwm isel ledled Castell-nedd Port Talbot. Archwiliodd y digwyddiad achosion tlodi, effaith diwygio lles, profiadau tlodi beunyddiol ein cymunedau, y cynnydd mewn tlodi mewn aelwydydd sy'n gweithio a'r berthynas rhwng incwm a lles.

Defnyddir yr wybodaeth o'r Symposiwm Tlodi i lywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth amlasiantaethol i amlinellu'r hyn y mae angen ei wneud i wella bywydau'r rheini sy'n byw ar incwm isel yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Arolwg Cydlyniant Cymunedol - Roedd yr arolwg hwn, a gynhaliwyd gyda phreswylwyr Castell-nedd Port Talbot yn ystod 2019, yn rhoi cipolwg ar ddynameg ein cymunedau. Tynnodd sylw at gymhlethdodau teimladau a phrofiadau pobl, yn enwedig wrth gael mynediad at wasanaethau sectorau cyhoeddus, ymgysylltu â phobl o gefndiroedd eraill ac fel dioddefwyr digwyddiadau/troseddau casineb. Roedd hefyd yn amlwg bod materion sylfaenol cyni ac amddifadedd lluosog yn cyfrannu at safbwyntiau negyddol.

Gludadwyedd: Gwasanaethau Cefnogol ar gyfer Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghastell-nedd a Phort Talbot - Cynhaliwyd y gwerthusiad cymunedol hwn, a gynhaliwyd yn gynnar yn 2019, i archwilio'r cwestiwn 'Beth allai fod yn wahanol o ran sut mae gwasanaethau ardal leol Castell-nedd Port Talbot (CNPT) yn cefnogi cymunedau sipsiwn a theithwyr lleol'? Wedi'i gomisiynu gan y cyngor a'i gynnal gan Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru ym Mhrifysgol Abertawe, mae'r ymchwil yn eistedd yng nghyd-destun ymrwymiad i ddeall ac ymateb yn well i'r anfantais a'r gwaharddiad sy'n wynebu cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.Mae cyfweliadau ag aelodau'r gymuned leol a darparwyr gwasanaethau wedi rhoi cipolwg amhrisiadwy sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd i benderfynu ar y ffordd orau o fynd i'r afael â materion.

Proffil Cymunedol - Nod yr ymarfer proffil cymunedol oedd deall cyfansoddiad cymunedau BAME (lleiafrifoedd ethnig a du) yng Nghastell-nedd Port Talbot ac unrhyw faterion a heriau y maent yn eu profi. Roedd yr ymarfer yn cynnwys dadansoddi data cyfrifiad a data a gasglwyd gan ysgolion Castell-nedd Port Talbot, yn ogystal â gwaith helaeth yn ymgysylltu â chymunedau ar draws y fwrdeistref sirol. Codwyd amryw o faterion/bryderon yn ystod yr ymarfer ac eir i'r afael â rhain drwy waith Cymdeithas Gymunedol BAME CNPT yn ogystal â llywio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Addewid Cyflogwr - Ymgyrch Amser i Newid Cymru - Mae Amser i Newid Cymru yn ymgyrch genedlaethol i roi terfyn ar y stigma a'r gwahaniaethu a wynebir gan bobl â phroblemau iechyd meddwl. Drwy ymrwymo i Adduned Cyflogwr Ymgyrch Amser i Newid Cymru mae'r Cyngor wedi datgan yn gyhoeddus ein bod ni fel sefydliad am gamu i fyny i fynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu ym maes iechyd meddwl. Mae'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn darparu fframwaith i ni gefnogi gweithwyr gyda'u hiechyd meddwl yn ogystal â darparu cymorth ar gyfer hyfforddiant a mynediad at amrywiaeth o adnoddau.

Clyfar a Chysylltiedig - Strategaeth Digidol Ddiwygiedig - Mae ein Strategaeth Clyfar a Chysylltiedig yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth strategol: trawsnewid y ffordd rydym yn cyflawni'n swyddogaethau/darparu'n gwasanaethau a chynyddu defnydd preswylwyr o swyddogaethau/wasanaethau ar-lein y cyngor; cyfrannu at

ddatblygu amodau ffafriol ar gyfer twf economaidd yn y fwrdeistref sirol a chroesawu dull "digidol yn gyntaf" o ymdrin â'r ffordd rydym yn cefnogi ein gweithlu.

Elfen allweddol o'r strategaeth yw lleihau eithrio digidol - rhywbeth sy'n effeithio ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig

Gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio - Mae'r strategaeth hon yn nodi gweledigaeth y Comisiynydd Pobl Hŷn o bobl hŷn yng Nghymru a'i blaenoriaethau ar gyfer 2019-2022. Gweledigaeth y Comisiynydd o Gymru fel '...y lle gorau yn y byd i heneiddio' yn cael ei chefnogi gan dair blaenoriaeth: cymryd camau i roi terfyn ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran; atal cam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Gwneud i Arian Weithio - Roedd yr ymchwil hon, a gynhaliwyd gan Toynbee Hall a Tai Tarian, yn rhoi cipolwg ar brofiad byw pobl o fod ar incwm isel yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'r canfyddiadau a'r atebion awgrymedig wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o'r agenda gwrth-dlodi, gyda chyfranogwyr yn parhau i gymryd rhan.

Archwiliad Gwefan y Cyngor - Comisiynwyd archwiliad anabledd gennym o'r deg tudalen we a ddefnyddir amlaf i nodi sut y gallwn wella mynediad at wasanaethau i'r preswylwyr hynny sydd ag anableddau. Mae adroddiad ar y canfyddiadau wedi dod i law ers hynny ac mae gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

Cymuned Arfer - Cynhaliwyd y digwyddiad Cymuned Arfer cyntaf ar Gyfranogaeth a Chynnwys ym mis Medi 2019. Sefydlwyd y Gymuned Arfer i ymgynghori â ni ac i gynnwys ein cymunedau a'n hasiantaethau partner o'r cychwyn cyntaf yn y gwaith a wnawn i'n helpu i lunio cynigion cyn ymarferion ymgynghori cyhoeddus ehangach. Casglodd y digwyddiad dros 28 o bartneriaid allweddol gyda chynrychiolwyr o amrywiaeth o grwpiau, gan gynnwys plant a phobl ifanc, gofalwyr, pobl ag anableddau, siaradwyr Cymraeg a phartneriaethau.

Cydraddoldeb mewn Cyflogaeth - Mae ein Hadroddiad Cydraddoldebau mewn Cyflogaeth blynyddol yn darparu gwybodaeth a gesglir ac a gyhoeddwyd fel rhan o'n gofynion cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth

cydraddoldeb. Mae'r ciplun blynyddol hwn, wedi'i ddaduno yn ôl nodweddion gwarchodedig a chategorïau penodedig, yn rhoi trosolwg o'n gweithlu.

Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau - Yn ein hadroddiad bwlch cyflog rhwng y rhywiau diweddaraf, y gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog dynion a menywod sy'n gweithio yn y cyngor oedd 3.93% ym mis Mawrth 2019. Er ei fod wedi gostwng o 4.21% (Mawrth 2018), roeddem yn ymrwymedig i leihau hyn ymhellach ac felly ymunom â Chynllun Cyflogwyr Chwarae Teg ym mis Chwefror 2019, i'n cefnogi i sicrhau cydraddoldeb rhyw yn ein gweithleoedd a sicrhau holl fanteision gweithlu gwirioneddol gytbwys. Gyda chefnogaeth Chwarae Teg rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhyw, sy'n cynnwys camau gweithredu penodol i leihau Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau y cyngor.

Yr Iaith Gymraeg - Mae gweithio i fodloni gofynion safonau'r Gymraeg yn allweddol i'n gwaith ac er nad ydym bob amser yn ei chael hi'n iawn rydym wedi ymrwymo i egwyddor Mesur y Gymraeg 2011. Mae darparu gwasanaeth Cymraeg gyda nifer cyfyngedig o siaradwyr Cymraeg yn heriol. Fodd bynnag, rydym yn edrych yn barhaus ar ffyrdd o oresgyn hyn er mwyn darparu gwasanaeth mwy effeithiol ac ymatebol. Mae ein Hadroddiad Safonau'r Gymraeg Blynyddol 2019-2020 yn darparu gwybodaeth ychwanegol am sut rydym yn cyrraedd y safonau a gellir gweld ein cynnydd ar gyfer cyfnod Hydref 2018-Medi 2019 ar Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn yr adroddiad cynnydd.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - Mae'r cytundeb rhyngwladol hwn yn nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pob plentyn, waeth beth fo'u hil, crefydd neu alluoedd. Rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o ofynion y Confensiwn, yn enwedig wrth ddatblygu ein polisïau a'n gwasanaethau. Mae hawl sylfaenol plentyn i gael ei amddiffyn rhag trais a cham-drin, i dderbyn addysg sy'n ei alluogi i gyflawni ei botensial ac i fynegi ei farn a chael ei glywed wedi bod yn sail i'n gwaith.

Cyfamod Lluoedd Arfog CNPT – Fel rhan o'n hymrwymiad i'r Cyfamod y Lluoedd Arfog, mae ein Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog (sy'n gweithio ar draws Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr) wedi bod yn allweddol i'r gwahanol fentrau a phrosiectau a gynhaliwyd yn y fwrdeistref sirol ac yn

rhanbarthol; roedd y rhain yn cynnwys Gŵyl Lluoedd Arfog Maer Castell-nedd Port Talbot, hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r lluoedd arfog, pentref y lluoedd arfog a chodi baneri yn Sioe Awyr Cymru.

Fel rhan o'n Strategaeth Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach, rydym yn gweithio gyda chynrychiolwyr o sefydliadau lleol sy'n cefnogi dioddefwyr trais domestig a'n cymuned lluoedd arfog i ddeall a chefnogi dioddefwyr a chyflawnwyr yn well yn ogystal â theuluoedd aelod sy'n gwasanaethu o'r lluoedd arfog neu gyn-filwr. Rydym wedi cydnabod y gallai menywod o wledydd y Gymanwlad sydd â phersonél lluoedd arfog priod brofi anawsterau penodol yn eu perthynas ac rydym yn gweithio gyda BAWSO (sefydliad sy'n cefnogi menywod o gefndiroedd ethnig sy'n profi cam-drin domestig) i ddeall y materion yn well.

Mae gwelliannau i'n dealltwriaeth o effaith ac amlygiad Anhwylder Straen Wedi Trawma wedi bod yn nodwedd yn ein rhaglen hyfforddi ac, o ganlyniad, nodwyd addasiadau rhesymol priodol yn ein derbynfeydd i wella hygyrchedd.

Cynllun Corfforaethol Castell-nedd Port Talbot – mae ein Cynllun Corfforaethol yn nodi ein gweledigaeth ac yn disgrifio'r math o gyngor rydym am ei gael. Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, rydym wedi gosod y tri amcan lles uchelgeisiol canlynol i'n hunain:

- Gwella lles plant a phobl ifanc: *"Mae ein holl blant a'n pobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, fel y gallant fod y gorau y gallant fod."*
- Gwella lles yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol: *“Mae pawb yn cymryd rhan lawn mewn bywyd cymunedol - yn gymdeithasol ac yn economaidd”*
- Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel y gellir gwella lles pobl: *“Bydd bwrdeistref sirol gyfan Castell-nedd Port Talbot yn lle bywiog, iach a diogel i fyw, gweithio a threulio amser hamdden”*

Monitro ac Adolygu

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni ei amcanion cydraddoldeb. Bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd hwn ar gyfer y cyfnod 2020-2021 a disgwylir ei gyhoeddi yn hydref 2021.

Gan fod ein Cynllun Corfforaethol yn cynnwys camau gweithredu a blaenoriaethau gwella sy'n ategu'r rhai a nodwyd i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb, byddwn yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn ar yr un pryd er mwyn darparu asesiad mwy cyfannol o gynnydd.

Bydd yr adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Craffu'r Cabinet a'r Cabinet, ac unwaith y caiff ei gymeradwyo caiff ei gyhoeddi ar ein gwefan a'i rannu drwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau gwahanol yn unol â'n Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Chysylltiadau Cymunedol. Bydd yr adroddiad blynyddol ar gael mewn fformatau amgen ar gais.

Bydd y Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol Corfforaethol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau cydraddoldeb lleol, yr heddlu, swyddogion ac aelodau'r cyngor, yn gyfrifol am adolygu'r amcanion cydraddoldeb a'r camau gweithredu yn barhaus yn ogystal â monitro cynnydd.

Byddwn yn datblygu dangosyddion perfformiad priodol i fesur y canlyniadau ar gyfer pob amcan a bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ynghyd â chamau gweithredu i gyflawni'r amcanion yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd dangosyddion perfformiad yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben.